**Atodiad A**

**<u>Deddf Tiroedd Comin 2006</u>**

## Adran 9 - Hollti Hawliau Dros Dro

## <u>Enghreifftiau</u>

Dylid nodi nad yw'r enghreifftiau canlynol yn rhestr hollgynhwysol, o bell ffordd. Bwriad y senarios yw rhoi rhagflas o'r math o gytundebau hollti dros dro y gall cominwyr a thirfeddianwyr ddod ar eu traws. Ni fwriedir iddynt wneud mwy na darparu gwybodaeth sylfaenol i'r rheiny sy'n ystyried ymrwymo i gytundebau hollti dros dro. Gellir cael mwy o wybodaeth gan y Swyddog Cofrestru Tiroedd Comin lleol perthnasol.

***Nid oes unrhyw statws cyfreithiol gan yr enghreifftiau a roddir isod; os ydych chi'n ansicr, dylech gyfeirio at Ddeddf Tiroedd Comin 2006 neu ymgynghori â'ch cynghorydd cyfreithiol eich hun.***

### Enghraifft 1

Mae ***Ffermwr A*** yn berchennog fferm sy'n rhandir trech â hawliau'n gysylltiedig ag ef i bori 1000 o ddefaid ar y comin lleol. Mae'n penderfynu hanner ymddeol o ffermio, a pheidio â gosod unrhyw ddefaid ar y comin, ond bydd yn parhau i redeg ei fferm. Mae ei gymydog yn gofyn a all rentu'r hawliau nad yw ***Ffermwr A*** yn mynd i'w defnyddio mwyach, fel y gall gynyddu maint ei ddiadell ei hun. Mae ***Ffermwr A*** yn penderfynu y gall ei gymydog ddefnyddio'i hawliau am y 5 mlynedd nesaf ac y bydd yn cael rhywfaint o rent am y rhain. Cytundeb hollti dros dro yw hwn, gan fod y cymydog yn defnyddio hawliau rhywun arall dros dro, ac yn yr achos hwn, yn talu am ddefnyddio'r hawliau hynny gyda rhent. Bydd angen i ***Ffermwr A*** hysbysu'r bobl berthnasol am y cytundeb (er enghraifft trwy ddefnyddio'r Ffurflen: CA 2006 Rhif. 1 (TS)).

### Enghraifft 2

Mae ***Ffermwr B*** yn berchennog fferm sy'n rhandir trech â hawliau'n gysylltiedig ag ef i bori 1000 o ddefaid ar y comin lleol. Nid yw'n dda ei iechyd, felly yn anfoddog mae'n penderfynu mynd i fyw gyda'i deulu sydd hefyd yn ffermio yn yr ardal. Nid yw eisiau gwerthu ei fferm eto, ond mae eisiau dal ei afael ar y ddiadell mae'n ei chadw ar y comin. Felly mae'n gosod ei fferm ar rent i denant am 3 blynedd, ond yn cadw ei hawliau comin er mwyn parhau i gadw ei ddefaid. Cytundeb hollti dros dro yw hwn, gan fod rhywun arall yn rhentu'r fferm heb yr hawliau dros dro, a bod ***Ffermwr B***, fel perchennog y fferm, yn cadw'r defnydd o'r hawliau ei hun. Bydd angen i ***Ffermwr B*** hysbysu'r bobl berthnasol am y cytundeb (er enghraifft trwy ddefnyddio'r Ffurflen: CA 2006 Rhif. 1 (TS)).

**Enghraifft 3**

Mae'r ***Ffermwr C*** yn berchennog fferm sy'n rhandir trech â hawliau'n gysylltiedig ag ef i bori 1000 o ddefaid ar y comin lleol. Mae eisiau helpu ei fab i gynyddu ei fusnes ffermio ei hun, oherwydd y cyfan y gall ei fab ei fforddio yw mân-ddaliad sydd â thir pori cyfyngedig. Er mwyn rhoi cychwyn iddo, mae'n cytuno y gall ei fab ddefnyddio hanner ei hawliau. Cytundeb hollti dros dro yw hwn o hyd, er bod y mab yn defnyddio'r hawliau heb dalu dim, gan fod y person sy'n defnyddio'r hawliau'n wahanol i berchennog y rhandir trech. Bydd ***Ffermwr C*** a'i fab yn dal i fod yn gyfyngedig i'r cyfnod hwyaf o 5 mlynedd a ganiateir ar gyfer cytundebau. Bydd angen i ***Ffermwr C*** hysbysu'r holl bobl berthnasol am y cytundeb (er enghraifft trwy ddefnyddio'r Ffurflen: CA 2006 Rhif. 1 (TS)).

**Enghraifft 4**

Mae ***Mrs D*** yn byw mewn tŷ sydd â hawliau tyddynnwr i bori 5 merlyn ar y comin bach y tu ôl i'w thŷ. Mae'r comin wedi gordyfu, a byddai'n dda o beth gosod anifeiliaid arno i'w bori. Ni fu diddordeb erioed gan ***Mrs D*** mewn cadw anifeiliaid ei hun, ond mae ganddi gyfeillion yn y pentref sydd wedi gofyn iddi a gân nhw osod eu dau ferlyn ar y comin bob dydd a dod â nhw i mewn bob nos. Mae ***Mrs D*** o'r farn bod hyn yn syniad da, ac mae ei chyfeillion yn mynd â'r merlod i'r comin bob dydd. Fodd bynnag, mae person arall yn gwrthwynebu hyn, gan ddweud nad oes hawl gan y merlod i fod yno oherwydd nad oes gan eu perchnogion hawliau tyddynnwr. Cytundeb hollti dros dro yw hwn, gan fod y bobl sy'n defnyddio rhai o'r hawliau yn wahanol i berchennog y rhandir trech. Bydd ***Mrs D*** a pherchnogion y merlod yn dal i fod yn gyfyngedig i'r cyfnod hwyaf o 5 mlynedd a ganiateir ar gyfer cytundebau, a rhaid i ***Mrs D*** hysbysu'r holl bobl berthnasol. Fodd bynnag, mae ***Mrs D*** o fewn ei hawliau wrth wneud cytundeb hollti dros dro, ac nid yw'n mynd y tu hwnt iddynt. Ar yr amod bod ***Mrs D*** yn creu cytundeb gyda pherchnogion y merlod ac yn hysbysu'r holl bobl berthnasol (er enghraifft trwy ddefnyddio'r Ffurflen: CA 2006 Rhif. 1 (TS)), ni all neb gwyno bod rhywun arall / rhywrai eraill yn benthyca ei hawliau gyda'i chaniatâd.

**Enghraifft 5**

Mae ***Mrs E*** yn etifeddu fferm sy'n rhandir trech â hawliau'n gysylltiedig ag ef i bori 1000 o ddefaid ar y comin lleol. Mae'n penderfynu dal ei gafael ar y fferm, ond ei gosod ar rent i denant o dan gytundeb tenantiaeth fferm. Nid oes hollti dros dro yn yr achos hwn, gan fod y tenant yn rhentu'r rhandir trech a'r hawliau fel un pecyn cyflawn.

## Enghraifft 6

Mae ***Mrs F*** yn etifeddu fferm sy'n rhandir trech â hawliau'n gysylltiedig ag ef i bori 1000 o ddefaid ar y comin lleol. Mae'n penderfynu gwerthu cyfran fawr o'r fferm, ond cadw'r tŷ a rhywfaint o'r tir iddi ei hun, i'w redeg fel mân-ddaliad. Yn yr achos hwn, bydd yn rhaid i ***Mrs F***, fel rhan o'r broses gwerthu, drefnu i ddosrannu'r hawliau sy'n gysylltiedig â'r rhandir trech cyfan yn gywir i'r rhan o'r tir mae'n bwriadu ei gwerthu a'r rhan mae'n bwriadu ei chadw. Unwaith y bydd hyn wedi ei wneud, bydd hi'n cadw'r dosraniad cywir o'r hawliau sy'n gysylltiedig â'i mân-ddaliad; felly ni fydd unrhyw hollti yn digwydd.

Pe bai ***Mrs F***, yn ddiweddarach, yn penderfynu na fyddai'n defnyddio'r hawliau sydd ganddi ar ôl, gallai ymrwymo i gytundeb hollti dros dro gyda thrydydd parti. Bydd angen i ***Mrs F*** hysbysu'r bobl berthnasol yn unol â hynny (er enghraifft trwy ddefnyddio'r Ffurflen: CA 2006 Rhif. 1 (TS)).

## Enghraifft 7

Mae ***Mrs G*** yn etifeddu fferm sy'n rhandir trech â hawliau'n gysylltiedig ag ef i bori 1000 o ddefaid ar y comin lleol. Mae'n penderfynu gosod cyfran fawr o'r fferm ar rent, ond cadw'r tŷ a rhywfaint o'r tir iddi ei hun i'w redeg fel mân-ddaliad. Yn yr achos hwn, mae'n rhaid i ***Mrs G*** drefnu i ddosrannu'r hawliau sy'n gysylltiedig â'r rhandir trech cyfan yn gywir, rhwng y gyfran o'r tir mae'n bwriadu ei gosod ar rent a'r gyfran mae'n bwriadu ei chadw. Unwaith y bydd hyn wedi ei wneud, mae'r dosraniad cywir o'r hawliau yn cael ei osod ar rent ynghyd â'r tir fel pecyn cyflawn, ac mae hi'n cadw dosraniad cywir o'r hawliau sy'n gysylltiedig â'i mân-ddaliad; felly ni fydd unrhyw hollti yn digwydd.

Fodd bynnag, os bydd hi'n penderfynu cadw'r cyfan o hawliau'r rhandir trech iddi hi ei hun, a gosod ar rent dim ond y tir heb yr hawliau a fyddai fel arfer wedi eu dosrannu iddo, yna mae hollti dros dro'n digwydd, a bydd angen iddi hysbysu'r bobl berthnasol yn unol â hynny (er enghraifft trwy ddefnyddio'r Ffurflen: CA 2006 Rhif. 1 (TS)). Bydd hi'n dal i fod wedi'i hymrwymo i gyfnod hwyaf o 5 mlynedd ar gyfer y cytundeb, ac ar ôl hynny caiff adnewyddu'r trefniant.